**FIN(4)-04-12 Papur2**

# YMCHWILIAD Y PWYLLGOR CYLLID I RAGLENNI'R CRONFEYDD STRWYTHUROL 2007–2013 YNG NGHYMRU

## Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd, Bwyd a Rhaglenni Ewropeaidd

## CYFLWYNIAD

1. Mae'r papur hwn yn cyflwyno tystiolaeth ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i effeithiolrwydd y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru 2007-2013.

2. Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) yn gyfrifol am reoli'r gwaith o ddarparu rhaglenni sydd werth ychydig yn llai na £2 biliwn o Gronfeydd Strwythurol Ewrop dros gyfnod ariannu o saith mlynedd rhwng 2007 a 2013, gan roi cyfanswm o oddeutu £3.25bn o fuddsoddiad (gan gynnwys arian cyfatebol). Mae hyn yn cynnwys rhaglenni Cydgyfeirio y Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a'r rhaglenni Cystadleurwydd llai yn Nwyrain Cymru. Mae Cymru hefyd yn cymryd rhan mewn nifer o raglennu cydweithredu tiriogaethol[1], gan gynnwys rhaglen Iwerddon/Cymru sy'n cael ei rheoli gan Awdurdodau Iwerddon.

## PERFFORMIAD RHAGLENNI 2007–2013

### Ymrwymiad y rhaglenni

3. Mae'r rhaglenni wedi symud ymlaen yn dda o ran eu gweithredu. Dros bedair blynedd yng nghyfnod saith i naw mlynedd y rhaglenni, mae WEFO wedi ymrwymo £1.6 biliwn (86% o gyfanswm yr arian UE sydd ar gael) i 260 o brosiectau, sy'n golygu cyfanswm buddsoddiad o dros £3.2 biliwn yng Nghymru (fel ar 15 Chwefror 2012).

4. Dyma faint sydd wedi'i ymrwymo drwy'r pedair rhaglen weithredol:

---

[1] Mae Cymru hefyd yn cymryd rhan yn y rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol, lle mae cyrff yng Nghymru yn rhan o 78 o brosiectau cydweithredu tiriogaethol sydd werth oddeutu £102m ERDF (Partneriaid yng Nghymru yn elwa ar £31m ERDF).

| Rhaglen | Dyraniad arian yr UE (£m)[2] | Cyfanswm cost y prosiect (£m)[3] wedi'i ymrwymo | Arian yr EU (£m)[4] wedi'i ymrwymo | Cyfran o ddyraniad arian yr UE (%)[5] |
|---|---|---|---|---|
| **Cydgyfeirio ERDF** | 1,055.7 | 1,741.4 | 865.4 | 82.0 |
| **Cystadleurwydd ERDF** | 61.8 | 151.4 | 51.6 | 83.0 |
| **Cydgyfeirio ESF** | 705.3 | 1,172.9 | 646.1 | 92.0 |
| **Cystadleurwydd ESF** | 53.7 | 141.1 | 49.8 | 93.0 |
| **Cyfanswm** | **1,876.5** | **3,206.7** | **1,612.9** | **86.0** |

5. Mae cyfanswm arian yr UE sydd wedi'i ymrwymo hyd yn hyn ar draws y pedair rhaglen (86%) yn cymharu'n dda iawn â'r pwynt cyfatebol yn rhaglenni 2000–2006 (73% ym mis Ionawr 2005). Er bod lefelau ymrwymo ERDF yn is hyd yn hyn na rhai ESF, mae'r prosiectau sydd ar y gweill yn ceisio cyllid ERDF a fydd yn sicrhau bod yr holl raglenni'n ymrwymo'u holl arian. Mae hyn yn cynnwys dau brosiect mawr a fydd yn destun cymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd (h.y. TGCh Band Eang y Genhedlaeth Nesaf a cham pellach ar gyfer deuoli'r A465). Ar ben hyn, mae disgwyl i WEFO ymrwymo 90% o arian yr UE erbyn diwedd mis Mawrth 2012.

## Gwariant y rhaglenni

6. Mae cyfanswm gwariant prosiectau yr UE ychydig dros £1.2bn. Mae hyn yn cynnwys taliadau o oddeutu £558m gan yr UE, sy'n cynrychioli 30% o gyfanswm dyraniad arian yr UE, ar sail hawliadau gan brosiectau a thaliadau gan WEFO. Ceir portffolio llawn o brosiectau i wneud y gorau posibl o'r arian sydd ar gael erbyn diwedd 2015 (y dyddiad terfynol ar gyfer taliadau). Mae WEFO hefyd yn bwriadu gorymrwymo cyllid ar gyfer rhannau o'r rhaglenni i ystyried tanwariant a ragwelir mewn prosiectau a gwneud y gorau posibl o wariant y rhaglenni'n gyffredinol. Defnyddiwyd y dull gweithredu hwn yn llwyddiannus ar gyfer rhaglenni 2000–2006.

7. Mae holl dargedau blynyddol y Comisiwn (2008, 2009, 2010 a 2011) ar gyfer gwariant y pedair rhaglen (N+2) wedi'u bodloni, er gwaethaf y sefyllfa economaidd anodd a newidiadau cyson yng nghyfradd gyfnewid yr Ewro. O ran targedau N+2 diwedd blwyddyn galendr 2012; mae'r amcangyfrifon

---
[2] Caiff Cymru arian mewn Ewros. Mae ffigurau dyrannu mewn £ yn seiliedig ar gyfradd gynllunio WEFO o £1: €1.20.
[3] Cyfanswm yr arian sydd wedi'i ymrwymo hyd yn hyn (gan gynnwys arian cyfatebol).
[4] Arian yr UE sydd wedi'i ymrwymo fel rhan o'r rhaglen.
[5] Arian yr UE sydd wedi'i ymrwymo fel canran o'r cyfanswm sydd ar gael.

gwariant cyfredol presennol yn dangos y bydd WEFO yn cyrraedd y targedau hyn dri mis yn gynharach nag a bennwyd yn wreiddiol (h.y. ym mis Medi).

**Llwyddiannau'r rhaglenni**

8. O gyfanswm y buddsoddiad mewn prosiectau (gan gynnwys arian cyfatebol), mae dros £740 miliwn yn cefnogi busnesau (gan gynnwys ymchwil a datblygu ac arloesi, TGCh a chyllid busnes) ac mae £1.3bn yn helpu pobl i gael gwaith a gwella'u sgiliau. Yn ogystal, mae £620m yn helpu i adnewyddu cymunedau ac mae £520m yn helpu i wella'r amgylchedd a thrafnidiaeth gynaliadwy. Gweler **Atodiad A** am y buddsoddiadau allweddol hyd yn hyn.

9. Mae prosiectau'r UE eisoes wedi helpu bron 288,000 o unigolion, gyda bron 82,000 yn cael cymorth i ennill cymwysterau ac oddeutu 34,400 yn cael cymorth i gael gwaith. Mae prosiectau gan gynnwys REACT ac yn Awyddus i Weithio wedi helpu 16,500 o bobl i gael hyd i waith.

10. Yn ogystal, mae 10,500 (gros) o swyddi a 2,150 o fentrau wedi cael eu creu drwy brosiectau megis Dechrau Busnes.

| Dangosyddion Allweddol | Targed y Rhaglen | Rhagamcan hyd at ddiwedd y Rhaglen | Cyflawniad y rhaglen hyd at 15/02/2012 |
|---|---|---|---|
| Cyfranogwyr a gynorthwywyd (Cronfa Gymdeithasol Ewrop) | 294,100 | 599,193 | 287,746 |
| Cyfranogwyr sydd wedi cael swydd (CGE) | 31,000 | 81,169 | 34,423 |
| Cyfranogwyr sydd wedi ennill cymwysterau (CGE) | 89,180 | 221,345 | 81,823 |
| Mentrau sydd wedi cael cymorth (ERDF) | 15,900 | 22,970 | 7,590 |
| Mentrau a grewyd (ERDF) | 5,604 | 9,295 | 2,141 |
| Swyddo gros a grewyd (ERDF) | 38,540 | 39,220 | 10,517 |

11. Mae'n amlwg o'r uchod, er gwaethaf y sefyllfa economaidd anodd, mae WEFO yn gwneud cynnydd sylweddol o ran cyflawni targedau cyffredinol y rhaglenni y cytunwyd arnynt gyda'r Comisiwn, yn enwedig o ran nifer y cyfranogwyr sy'n cael gwaith, cyfranogwyr sy'n ennill cymwysterau, a chymorth i bobl ifanc. Mae rhai targedau ESF yn cael eu codi o ganlyniad, ar ôl trafod gyda'r Comisiwn, i adlewyrchu'r perfformiad da hyd yn hyn a'r gweithgarwch mawr a ragwelir yn y dyfodol gan brosiectau cymeradwy a'r rheini sydd ar y gweill. Er enghraifft, ar gyfer cyllid Cydgyfeirio Ewrop, mae

WEFO yn negodi gyda’r Comisiwn ynghylch cynyddu nifer y cyfranogwyr sy’n cael swyddi, o 27,500 i 30,500.

12. Ar gyfer y targedau ERDF, a thrwy gyflenwi prosiectau megis Academia Busnes (A4B) Llywodraeth Cymru, mae arwyddion calonogol bod ymchwil a datblygu cydweithredol yn curo’r targed. Ar gyfer Blaenoriaeth Cydgyfeirio 1 yr ERDF (Adeiladu Economi Seiliedig ar Wybodaeth), nodwyd 340 o brosiectau cydweithredol gyferbyn â tharged o sefydlu 500 erbyn diwedd y rhaglen. Dengys hyn fod busnesau yn buddsoddi yn y maes hwn o hyd mewn cyfnod economaidd anodd, ond mae busnesau’n parhau’n fwy tebygol o aros ar y cam hwn nes iddynt fod yn fwy hyderus bod cyfle gwell i’r cynnyrch/proses/gwasanaethau newydd lwyddo. O ganlyniad, mae rhai heriau o hyd o ran bodloni rhai targedau allbwn.

**Monitro perfformiad prosiectau a rhaglenni**

13. Mae WEFO yn monitro perfformiad holl dargedau prosiectau a rhaglenni’r UE yn agos. Cynhelir adolygiadau ac ymweliadau rheolaidd â phrosiectau’r UE i sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd yn unol â’r proffil cyflenwi y cytunwyd ar eu cyfer a’u bod yn cydymffurfio â rheoliadau’r Comisiwn Ewropeaidd a chanllawiau WEFO.

14. Mae Pwyllgor Monitro Rhaglen Cymru Gyfan 2007-2013, dan gadeiryddiaeth Mark Drakeford AC, sy’n cynnwys partneriaid o Gymru a chynrychiolaeth gref o’r sector preifat, yn derbyn adroddiadau chwarterol ar berfformiad ar lefel rhaglen a blaenoriaeth. Mae hefyd yn cael y diweddaraf ar faterion rhaglennu allweddol, fel astudiaethau gwerthuso, arian cyfatebol, integreiddio themâu trawsbynciol cynaliadwyedd amgylcheddol a chyfle cyfartal, gwybodaeth a chyhoeddusrwydd etc. Cyhoeddir holl bapurau’r PMRh ar wefan WEFO (www.wefo.wales.gov.uk). Bydd y PMRh hefyd yn chwarae rôl allweddol o ran y gwersi i’r dysgu i helpu i lunio rhaglenni ar gyfer 2014-2020 yng Nghymru.

15. Er mwyn bod yn fwy tryloyw ac atebol o ran rheoli’r rhaglenni Ewropeaidd, cyhoeddir bwletinau bob pythefnos ar hynt y rhaglenni ar wefan WEFO, gan gynnwys gwybodaeth am allbynnau ar lefel awdurdod unedol, a chyhoeddir gwybodaeth a data am ddangosyddion allbwn prosiectau’r UE ar gronfa ddata chwiliadwy ar wefan WEFO. Yn ychwanegol, cyhoeddir gwybodaeth a data am ddangosyddion allbwn prosiectau’r UE drwy gronfa ddata y gellir ei chwilio ar wefan WEFO (gweler y Datganiad Ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 6 Chwefror 2012 ar http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-business-fourth-assembly-written-ministerial-statements.htm?act=dis&id=230230&ds=2/2012)

**Cyfleoedd caffael a darparu strategol**

Dadansoddiad o'r sectorau

16. Mae WEFO wedi mabwysiadu ffordd fwy strategol o gyflawni ar gyfer y cyfnod presennol, gan ganolbwyntio'n fwy ar amcanion, allbynnau a chanlyniadau i ddefnyddio'r arian yn fwy effeithiol ac osgoi gwastraff a dyblygu gwaith.

17. Hefyd mae mwy o bwyslais ar gaffael agored a chystadleuol ar lefel prosiect er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian a sicrhau bod pawb yn gallu elwa ar arian yr UE.

18. O ystyried y ffordd strategol hon o weithio, mae prosiectau dan arweiniad Llywodraeth Cymru yn cyfrif am gyfran sylweddol o'r prosiectau sydd wedi'u cymeradwyo hyd yn hyn (98 o 260, neu 40% o'r arian sydd wedi'i ymrwymo hyd yn hyn). Fel yn achos pob prosiect a ariennir gan yr UE, mae nhw wedi cael eu datblygu mewn partneriaeth ac fe'u cyflwynir yn bennaf drwy drefniadau caffael. Mae cyrff eraill yn arwain y prosiectau sy'n weddill, gan gynnwys 67 o brosiectau awdurdodau lleol, 38 yn y trydydd sector, 10 yn y sector preifat a 31 yn y sector Addysg Uwch/Addysg Bellach.

19. Mae'r sector preifat yn elwa'n sylweddol ar y rhaglenni Ewropeaidd ac mae hefyd yn darparu llawer o arian cyfatebol (25%). Mae'r sector preifat hefyd yn bartner allweddol o ran llywio cyfeiriad rhaglen ac mae'n cyfrannu'n helaeth at ddarparu o dan drefniadau caffael (gweler para 21). Wedi dweud hynny, mae'n wir mai prin y mae'r sector preifat yn cymryd rôl noddwr arweiniol. Mae nifer o resymau dros hynny, gan gynnwys rheolau cymorth gwladwriaethol, cyfyngiadau ar gadw refeniw/elw, y tasgau archwilio a gweinyddu cysylltiedig, a'r risg o orfod ad-dalu gwariant y mae'r Comisiwn yn barnu sy'n anghymwys. Serch hynny, mae'n amlwg bod angen ystyried y ffordd orau o ymgysylltu'n fwy helaeth â'r sector preifat yn y dyfodol. Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu rhaglenni 2014-2020, byddwn yn ymchwilio i sut mae modd gwneud y gorau posibl o fesurau symleiddio arfaethedig y Comisiwn Ewropeaidd i annog cyfranogiad.

Caffael

20. Mae caffael agored a chystadleuol yn arf pwysig o ran sicrhau gwerth am arian cyhoeddus wrth ddarparu prosiectau'r UE a sicrhau bod pawb a allai fod â diddordeb yn gallu cael arian yr UE.

21. Hyd yn hyn, amcangyfrifir bod dros gweithgarwch caffael werth dros £1 biliwn wedi'i gyflawni wrth gyflwyno prosiectau cymeradwy, gyda phrosiectau cymeradwy sydd wedi cwblhau'u gwaith caffael yn dyfarnu contractau sy'n werth £700m i wahanol gyrff. Mae dros 900 o gontractau (werth £381m) wedi cael eu dyfarnu i'r sector preifat, 200 i'r sector cyhoeddus, (werth £212m), a 390 o gontractau (werth £107m) i'r trydydd

sector.

22. Cyhoeddodd WEFO ganllawiau diwygiedig ar fodelau cyflwyno prosiectau a defnyddio caffael ym mis Hydref 2010. Roedd y canllawiau diwygiedig yn gyfle o brosiectau ddefnyddio grantiau cystadleuol, sydd eisoes wedi'u mabwysiadu ym mhrosiect Porth Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, fel ffordd arall o sicrhau gwerth am arian wrth gyflwyno prosiectau.

**Arian cyfatebol a chyfraddau ymyrryd**

23. Un o brif fanteision rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yw y gallan nhw fod yn sbardun ar gyfer buddsoddiad, gan yrru prosiectau ymlaen a fyddai'n merwino fel arall. Po fwyaf o arian y gellir ei sicrhau ar gyfer prosiectau o amryw ffynonellau, y mwyaf effeithiol y bydd arian yr UE o ran ysgogi buddsoddiad o ffynonellau cyhoeddus a phreifat.

24. Fodd bynnag, yn 2009, oherwydd y dirwasgiad byd-eang ac er mwyn bod yn fwy hyblyg i leddfu pwysau posibl ar arian cyfatebol, cytunodd WEFO gyda'r Comisiwn ar gynnydd mewn cyfraddau ymyrryd, gyda'r gyfradd ymyrryd gyfartalog yn cynyddu o 50% i 60%.

25. Mae WEFO yn parhau i fonitro'r sefyllfa arian cyfatebol ar lefel rhaglen a phrosiect, yn enwedig yng ngoleuni'r gostyngiadau yn y gyllideb yn dilyn Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr Llywodraeth y DU yn 2010 a chyllideb Llywodraeth 2011 a'i dilynodd. Mae'n gweithio'n agos gyda noddwyr prosiectau fesul achos a gall gynnig cyfraddau ymyrryd grant o hyd at 100% ar gyfer prosiectau unigol os oes angen, ar yr amod y cedwir y cyfraddau ymyrryd ar gyfartaledd ar lefel rhaglen.

26. Ar y cyfan, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £565 (35% o'r arian cyfatebol sydd wedi'i ymrwymo hyd yn hyn) i brosiectau'r UE. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad o £98m i 35 o brosiectau (gan gynnwys llawer o brosiectau adfywio canol tref) o'r Gronfa Arian Cyfatebol a Dargedir (TMF), sef cronfa 'opsiwn olaf' ar gyfer prosiectau sy'n cael trafferth sicrhau arian cyfatebol priodol o ffynonellau eraill. Er gwaethaf y gostyngiad fel rhan o'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn ddiweddar, rydyn ni wedi cyflawni'n hymrwymiad o dan y TMF ar gyfer prosiectau'r EU sy'n cyflawni'r amcanion sydd wedi'u pennu ar eu cyfer. Mae rhywfaint o arian sydd heb ei ymrwymo o'r TMF o hyd a gellir defnyddio hyn fel arian cyfatebol ar gyfer prosiectau yng ngweddill cyfnod y rhaglenni.

**Gwerthuso**

27. Caiff llwyddiant cymharol buddsoddiadau sy'n cael cymorth drwy Gronfeydd Strwythurol ei werthuso'n fanwl ac yn drylwyr. Mae'n ofynnol i bob prosiect sy'n derbyn Cronfeydd UE o fwy na £2m gomisiynu gwerthusiadau annibynnol. Mae WEFO hefyd yn rhoi rhaglen werthuso ar waith y cytunir arni gyda'r Comisiwn Ewropeaidd, sydd â'r nod o asesu

effeithiolrwydd y ffordd y gweithredir y rhaglenni ac effaith gyffredinol ymyriadau. Cyhoeddir adroddiadau gwerthuso ar wefan WEFO yn: http://wefo.wales.gov.uk/publications/monitoringevaluation/?lang=cy

28. Mae nifer o werthusiadau'n mynd rhagddynt, er enghraifft Arolwg Ymadawyr ESF 2010, gwerthusiadau thematig o'r holl flaenoriaethau ar draws y rhaglenni, ac arolwg o fusnesau sy'n cael cymorth ERDF. Mae arolwg ESF 2009 o unigolion sy'n cael cymorth drwy ESF yn cynnig tystiolaeth galonogol o effeithiolrwydd prosiectau ESF, gan gynnwys:

- cynnydd o 27 y cant yn y gyfradd gyflogaeth ymysg unigolion sy'n cael cymorth drwy Flaenoriaeth Cyflogaeth Cydgyfeirio ESF. O'r ymatebwyr hynny oedd yn ddi-waith adeg yr arolwg, roedd tua 25% ohonynt nhw'n parhau i gymryd rhan mewn prosiect ESF gan fod hynny'n rhoi cyfle llawer gwell iddyn nhw gael gwaith yn y dyfodol;

- yn achos unigolion sy'n cael cymorth o dan Flaenoriaeth Sgiliau Cydgyfeirio ESF, roedd 20% wedi gallu symud i fyny yn eu galwedigaeth ers cael cymorth ESF. O'r rheini oedd yn parhau i fod yn yr un swydd adeg yr arolwg, roedd 21% wedi cael dyrchafiad, 50% yn fwy diogel yn eu swyddi a 42% ar well tâl, cyflog neu incwm ers cymryd rhan mewn prosiect ESF.

29. Mae arolwg 2010, sydd wrthi'n cael ei gwblhau, yn cadarnhau canlyniadau arolwg 2009. Mae gwelliannau i'r fethodoleg werthuso ar gyfer arolygon 2009 a 2010 yn dangos bod tua 20% yn fwy o gyfle i unigolyn di-waith sy'n cymryd rhan mewn prosiect ESF fod mewn gwaith o fewn blwyddyn i'r ymyrraeth o gymharu ag unigolion di-waith sydd heb gymryd rhan mewn prosiect ESF.

30. Mae canlyniadau cynnar o arolwg busnes ERDF yn dangos bod cymorth ERDF wedi cael effaith gadarnhaol ar drosiant, elw a chynhyrchiant tua 35-40% o'r busnesau a gafodd gymorth. Ar ben hyn, mae 30% o fusnesau'n nodi y byddai perfformiad eu gweithlu'n waeth heb gymorth ERDF.

31. Mae WEFO ar fin cyhoeddi'i grynodeb o werthusiad rhaglenni 2000–2006 yn fuan. Bydd hyn yn dangos bod y rhaglenni'n cyflawni allbynnau clir a mesuradwy, gan ragori ar nifer o dargedau allweddol ar gyfer rhaglenni (creu swyddi, mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd a chymorth i fusnesau). Mae'r rhaglenni hefyd wedi cael effaith gadarnhaol drwy greu manteision cymunedol ehangach, er enghraifft drwy ddatblygu partneriaethau a meithrin capasiti cysylltiedig.

32. Mae'n amlwg o'r adroddiad nad oes llawer wedi newid ers dechrau'r Mileniwm o ran gwerth ychwanegol crynswth i economi Cymru, mae'r sefyllfa ychydig yn well o edrych ar ddangosyddion perfformiad economaidd gwahanol (e.e. prif incwm y pen), sy'n ymddangos yn fwy perthnasol i Gymru yn gyffredinol a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn benodol. Ar ben hyn, mae hefyd yn amlwg bod cyflogaeth wedi cynyddu,

diweithdra wedi gostwng a lefelau sgiliau wedi gwella dros y cyfnod. Yn ogystal, mae’r rhaglenni wedi arwain at allbynnau clir a mesuradwy dros ben, gan ragori ar dargedau nifer o raglenni. Ar y cyfan, mae’n amlwg bod y rhaglenni wedi helpu Cymru i ddod drwy gyfnod o newid ac addasu economaidd byd-eang lle byddai’r sefyllfa’n waeth heb arian Ewropeaidd.

**Rhaglenni 2014–2020**

33. Rydyn ni’n gweithio’n agos gyda Llywodraeth y DU, llywodraethau datganoledig eraill a phartneriaid yng Nghymru i helpu i lywio safle trafod a chyfeiriad polisi y DU ar gyfer y cylch nesaf o raglenni’r UE. Caiff crynodeb o’r ymatebion i’n ymarfer myfyrio ei gyhoeddi ym mis Mawrth, ac mae cyfarfodydd rheolaidd Fforwm Partneriaeth Ewropeaidd Ôl 2013 a ffrydiau gwaith technegol yn mynd rhagddynt. Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol yn diweddarach eleni. Bydd y trefniadau hyn yn helpu i lywio penderfyniadau Llywodraeth Cymru ar flaenoriaethau buddsoddi yn y dyfodol, ac yn ei dro y math o weithgareddau prosiect i’w cefnogi.

34. Dyma’r ddolen ar gyfer manylion rhaglenni yn y dyfodol, fel rhan o’r dystiolaeth a gyflwynwyd i hysbysu ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes ar y cynigion deddfwriaethol drafft ar gyfer Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020: http://www.senedd.cynulliadcymru.org/ieListDocuments.aspx?CId=228&MId=644&Ver=4

**ATODIAD A**

## LLWYDDIANNAU ALLWEDDOL

### Cefnogi Busnes

- **Busnes** – mae busnesau'n elwa'n sylweddol ar raglenni 2007–2013, gyda chyfanswm o £730m wedi'i fuddsoddi mewn prosiectau hyd yn hyn (gan gynnwys arian cyfatebol).

- Hyd yn hyn, mae prosiectau'r UE wedi **cynorthwyo 7,600 o fusnesau** ac wedi cefnogi **creu dros 2,150 o fusnesau**.

- Mae **JEREMIE** eisoes wedi buddsoddi £82m mewn 384 o SMEs, ac mae'r gronfa wedi sicrhau buddsoddiadau o £122m gan y sector preifat.

- Mae **71% o'r 900 o gontractau caffael** i'r sector preifat wedi cael eu dyfarnu i fusnesau Cymreig neu sydd â phresenoldeb yng Nghymru.

### Ymchwil a datblygu a TGCh

- **Gyda buddsoddiad mewn ymchwil a datblygu o Amcan 1 yn cael ei ddyblu,** mae **buddsoddiad o £430m** (£220m o arian yr UE) eisoes yn cefnogi economi wybodaeth a TGCh (e.e. Sefydliad Ymchwil Carbon Isel, Uwch Dechnolegau Gweithgynhyrchu Cynaliadwy, Cymorth Arloesi i Fusnesau).

- Mae **buddsoddiad o dros £85m** (£45m o arian yr UE) eisoes **yn cefnogi TGCh** (e.e. Cyfrifiadura Perfformiad Uchel i Gymru; e-Droseddu); £35 miliwn pellach i'w fuddsoddi mewn TGCh, gan gynnwys Band Eang y Genhedlaeth Nesaf.

### Seilwaith

- Mae **£560m o arian yr UE wedi'i fuddsoddi** hyd yn hyn, gan gynnwys £56m ar gyfer Ffordd Ddosbarthu'r Cyrion Harbour Way ym Mhort Talbot ac £20m ar gyfer yr A40 Penblewin i Barc Slebech, a tua 40 o gynlluniau adfywio mewn 28 o drefi, gan gynnwys Bae Colwyn, Llanidloes, Merthyr Tudful, Llanelli, Sir Benfro, Casnewydd a Butetown.

- Bwriedir buddsoddi £160m pellach o arian yr UE mewn gweithgareddau seilwaith, gan gynnwys trafnidiaeth (A465) a Band Eang y Genhedlaeth Nesaf.

- Mae rheolwyr buddsoddi **JESSICA** yn adolygu naw ffurflen Mynegi Diddordeb ar hyn o bryd, sy'n ymgeisio am oddeutu £75m. Mae diddordeb wedi cael ei fynegi mewn prosiectau yng Nghastell-nedd Port Talbot,

Dinbych-y-Pysgod, Caernarfon, y Mwmbwls, Abertawe, Wrecsam, Port Talbot a Phontypridd.

**Yr Amgylchedd**

- Hyd yn hyn, mae **£225m wedi'i fuddsoddi** (£120m o arian yr UE), gan gynnwys £50m ar gyfer **amddiffynfeydd llifogydd** i ddiogelu dros 7,700 o gartrefi, £33.5m ar gyfer **ARBED** i wella effeithlonrwydd ynni bron 5,000 o gartrefi ar incwm isel, a £7m ar gyfer cynllun ynni llanw cyntaf Cymru, sef '**Deltastream**' sydd i'w ddatblygu ar arfordir Sir Benfro.

**Cyflogaeth**

- Buddsoddiad o **£570m** (£290m o'r ESF) hyd yn hyn **i helpu pobl i gael gwaith**. Mae **£200m** o hyn (£105m o'r ESF) **wedi'i fuddsoddi** i fynd i'r afael â thangyflawni, ennill cymwysterau, gwella lefelau sgiliau a gwella cyfleoedd **dros 75,000 o bobl ifanc** i gael gwaith (e.e. prosiectau Technocamps, ENGAGE, a STEM Cymru).

- Mae **Yn Awyddus i Weithio** eisoes **wedi cefnogi 37,000 o bobl**, gyda **10,000** ohonynt **wedi cael help i gael gwaith**.

**Sgiliau**

- Buddsoddiad o **£700m** (£380m o'r ESF) hyd yn hyn **i helpu i godi lefelau sgiliau** (e.e. Adeiladu Sgiliau, Sgiliau Twf Cymru, Prentisiaethau Modern, Sgiliau Sylfaenol yn y Gweithle).

- Mae Proact/**Sgiliau Twf Cymru eisoes wedi helpu 345 o gwmnïau ac 18,500 o weithwyr** i wella'u sgiliau, gyda llawer ohonyn nhw mewn perygl o golli swydd.

- Mae **Adeiladu Sgiliau** wedi cefnogi **21,600 o unigolion** hyd yn hyn, gyda 12,900 ohonynt yn ennill cymwysterau a 4,500 ohonynt yn cael gwaith.

- **Sgiliau Lefel Uwch –** drwy weithio gyda phrifysgolion rydyn ni eisoes wedi buddsoddi dros £90m i ddatblygu sgiliau lefel uwch, gan gynnwys drwy bartneriaethau Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth, Mynediad at Radd Meistr a'r Bartneriaeth Ymchwil ac Arloesi Hyfforddiant Dur.